**11.1** **Gweddill y Ceisiadau** **Remainder Applications**

Rhif y Cais: **20C228C** Application Number


Ymgeisydd Applicant

**Mr Mark Lloyd Davies**
**Gorddiniog**
**Cemaes**
**Ynys Mon**
**LL67 0HA**

Cynlluniau diwygiedig ar gyfer codi modurdy a gafodd ei ganiatau yn flaenorol o dan caniatad cynllunio rhif 20C228B yn

Amendments to garage previously approved under planning application number 20C228B

Gorddiniog, Cemaes



**Pwyllgor Cynllunio: 01/06/2011**

**Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaeth Cynllunio (DO)**

**Argymhelliad:**

Caniatau

**Rheswm dros Adrodd i'r Pwyllgor:**

Mae'r ymgeisydd yn gweithio i Gyngor Sir Ynys Mon

## 1. Y Safle a'r Bwriad

Ty par deulawr yw'r annedd yn ei libart ei hun gyda modurdy ar wahan. Mae'r eiddo ar Ffordd Y Traeth, Cemaes.

Bwriedir dymchwel y garej to fflat presennol ac adeiladu garej dwylawr yn ei le. Mae'r cais yma yn gais diwygiedig i'r hyn a ganiatawyd yn flaenorol ar y safle. Mae'r cais hwn yn newid y cais gafodd ei ganiatáu yn flaenorol ar y safle.

## 2. Mater(ion) Allweddol

Y prif faterion i'w hystyried yw – a yw safle a dyluniad y garej arfaethedig yn dderbyniol ac a fydd y cynnig yn cael effaith niwediol ar fwynderau'r deiliaid preswyl cyfagos.

## 3. Prif Bolisïau

**Cynllun Lleol Ynys Mon**

1 – Polisi Cyffredinol
42 – Dyluniad
58 – Estyniadau

**Cynllun Fframwaith Gwynedd**

D4 – Lleoliad, Safle a Dyluniad
D29 – Dyluniad

**Cynllun Datblygu Unedol a Stopwyd**

GP1 – Cyfarwyddyd a Rheoli Datblygu
GP2 - Dyluniad

## 4. Ymateb i'r Ymgynghoriad a'r Cyhoeddusrwydd

Aelod Lleol – Dim ymateb ar adeg ysgrifennu'r adroddiad

Cyngor Cymuned - Dim ymateb ar adeg ysgrifennu'r adroddiad

Priffyrdd – Dim argymhelliad

Draenio – Sylwadau

**5. Hanes Cynllunio Perthnasol**

20C228 – Altro ac Ymestyn. Caniatau 29/06/06

20C228A– Altro ac Ymestyn. Caniatau 09/04/08

20C228B – Altro ac Ymestyn. Caniatau 03/11/10

**6. Prif Ystyriaethau Cynllunio**

Mae’r cynnig yn golygu dymchwel y garej to fflat bresennol a’i newid am garej ddeulawr, gyda garej ar y lefel isaf ac ystafell chware ar y llawr cyntaf.

Mae’r cais hwn yn ddiwygiad i’r garej arfaethedig gafodd ganiatâd cyn hyn o dan rif cynllunio 20C228B. Oherwydd maint y diwygiadau, nid oedd yn bosibl delio gyda’r cynnig fel diwygiad bychan.

Mae’r garej a fwriedir yn llai na’r garej gafodd ganiatâd cyn hyn. Fodd bynnag, mae’n cael ei gydnabod bod maint y garej a fwriedir o faint sylweddol, ac y mae’r ymgeisydd wedi cyflwyno datganiad o gyfiawnhad ynglŷn â hyn ar y cais blaenorol ac mae cynnwys y cyfiawnhad yn edrych yn foddhaol. At hyn, mae dyluniad y garej a fwriedir yn gweddu gyda’r eiddo sydd o gwmpas ac y mae’r safle hefyd o fewn Ffin Datblygu Cemaes ac felly fe ymddengys bod y cynnig yn dderbyniol.

Ystyrir bod lleoliad, graddfa a deunyddiau’r garej arfaethedig yn dderbyniol ac nid ydym o’r farn y bydd y datblygiad yn cael effaith annerbyniol ar fwynderau eiddo preswyl cyfagos oherwydd edrych drosodd, gorgysgodi, dominyddu neu golli preifatrwydd.

**7. Casgliad**

Mae’r gwaith afaethedig i ddymchwel ac ail godi y garej yn cael eu ystyried yn dderbyniol o osod amodau.

**8. Argymhelliad**

**Caniatau**

**(01) Rhaid cychwyn ar y datblygiad yr ymwna'r caniatâd hwn a fo o fewn pum mlynedd i ddyddiad y caniatâd hwn.**

Rheswm: Ufuddhau i anghenion Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.
**(02) Rhaid ymgymryd a'r datblygiad a ganiateir gan y caniatâd hwn yn fanwl yn ôl y cynllun a gyflwynwyd ar y 12/04/11 o dan cais cynllunio rhif. 20C228C.**

Rheswm: Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth.

**(03) Caiff y garej a ganiateir trwy hyn, ei defnyddio fel garej breifat yn unig, yn gysylltiedig a defnyddio'r annedd gyfagos ac nid am unrhyw fath o ddefnydd masnachol na busnes.**

Rheswm: Sicrhau y bydd y datblygiad yn foddhaol o safbwynt amwynder.

**9. Polisïau Perthnasol Eraill**

**Cynllun Lleol Ynys Mon**

31 – Tirlun

Polisi Cynllunio Cymru (Mawrth 2002)

TAN12 – Dyluniad

CCA: Cyfarwyddyd Dylunio ar gyfer yr Amgylchedd Trefol a Gwledig.

**10. Ymatebion Eraill Di-Faterol a Godwyd**

Dim

**11.2** **Gweddill y Ceisiadau** **Remainder Applications**

Rhif y Cais: **30C692A** Application Number


Ymgeisydd Applicant

**Mr & Mrs R V Moules**
**c/o Penseiri Russell-Hughes Architects**
**56 Bridge Street,**
**Llangefni,**
**Ynys Môn.**
**LL77 7HH.**

Cais llawn ar gyfer codi annedd ynghyd a gosod system trin carthffosiaeth a creu mynedfa newydd at dir ger

Full applicaition for the erection of a dwelling together with the installation of a treatment plant and creation of a new access on land at

Meusydd, Llanbedrgoch



**Pwyllgor Cynllunio: 01/06/2011**

**Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaeth Cynllunio(JBR)**

**Argymhelliad:**

Permit.

**Rheswm dros Adrodd i'r Pwyllgor:**

Mae'r ymgeisydd yn gweithio i Gyngor Sir Ynys Mon.

**1. Y Safle a'r Bwriad**

Mae safle'r cais ym mhentref Llanbedrgoch ar dir ger Meusydd.

Mae hwn yn gais cynllunio llawn i godi annedd a gosod gwaith trin preifat ac adeiladu mynedfa newydd.

**2. Mater(ion) Allweddol**

Y mater allweddol yw – a yw lleoliad, dyluniad, maint ac edrychiad allanol yr annedd arfaethedig yn dderbyniol.

**3. Prif Bolisïau**

**Cynllun Lleol Ynys Mon Local**

1 –Polisi Cyfredinol
42 –Dylunio
48 –Criteria Meini Prawf Codi Tai
50 – Pentrefi/Trefi Rhestredig

**Cynllun Fframwaith Gwynedd**

A2 –Tir ar Gyfer Codi Tai
A3 –Datblygiadau Tai Newydd
D29 –Dylunio

**Cynllun Datblygu Unedol a Stopiwyd**

GP1 –Cyfarwyddyd Rheoli Datblygu
GP2 –Dylunio
HP3 – Datblygiadau Tai Newydd

**4. Ymateb i'r Ymgynghoriad a'r Cyhoeddusrwydd**

Aelod Lleol – Dim ymateb wedi ei dderbyn adeg ysgrifennu'r adroddiad
Dwr Cymru – Dim sylwadau
Cyngor Cymuned – Argymhell caniatau
Prifyrdd – Caniatad amodol
Asiantaeth yr Amgylchedd – Dim ymateb wedi ei dderbyn adeg ysgrifennu'r adroddiad
Draenio – Sylwadau.

**Ymateb i Gyhoeddusrwydd**

Derbyniwyd un llythyr yn gwrthwynebu gyda'r prif bwyntiau fel a ganlyn:

- Pryder ynglŷn â lleoliad y gwaith trin a'r traen cerrig fydd wedi'i leoli y tu ôl i eiddo'r gwrthwynebwr. Oherwydd problemau yn ddiweddar gyda'u system hwy eu hunain, fe osodwyd tanc septig newydd ac mae yna bryder y byddai unrhyw broblem fyddai'n codi o'r gwaith trin arfaethedig yn cael effaith sylweddol ar eu heiddo hwy.

Mewn ymateb i'r pwyntiau hyn:

- Mae'r gwaith trin a'r traen cerrig wedi'u lleoli fel eu bod yn cydymffurfio gyda gofynion statudol a byddant yn cael eu hadeiladu i'r safonau sydd eu hangen. Ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiad gan Adran Ddraenio'r Cyngor nac Asiantaeth yr Amgylchedd. Mae'r gwaith trin wedi'i leoli ymhellach i ffwrdd o eiddo'r gwrthwynebwr na'r hyn gafodd ei ganiatáu dan y caniatad amlinellol pryd na chafwyd unrhyw wrthwynebiadau.

**5. Hanes Cynllunio Perthnasol**

30C692 – Cais amlinellol ar gyfer codi annedd ynghyd a creu mynedfa newydd a gosod system trin carthffosiaeth preifat ar dir ger Meusydd, Llanbedrgoch.
Caniatau – 12.5.10

**6. Prif Ystyriaethau Cynllunio**

Rhoddwyd caniatad cynllunio amlinellol cyfeirnod 30C692 ar 12.5.10 ac felly mae'r egwyddor o ddatblygu yn dderbyniol.

Cais yw hwn, felly, i gymeradwyo'r materion wrth gefn ac mae'n cael ei gyflwyno fel cais llawn yn hytrach nag un i gymeradwyo'r materion wrth gefn oherwydd bod lleoliad yr annedd a safle'r fynedfa i gerbydau yn wahanol i'r hyn a gymeradwywyd o dan y caniatad amlinellol.

Ystyrir bod safle, dyluniad, maint ac edrychiad allanol yr annedd arfaethedig yn dderbyniol.

Nid ydym yn credu y bydd yr annedd arfaethedig yn cael effaith annerbyniol ar amwynder yr eiddo preswyl cyfagos oherwydd edrych drosodd, gorgysgodi, dominyddu neu golli preifatrwydd.

**7. Casgliad**

Ystyrir bod safle, dyluniad, graddfa ac edrychiad allanol yr annedd arfaethedig yn dderbyniol.

Nid ydym yn ystyried y bydd yr annedd arfaethedig yn cael effaith annerbyniol ar fwynderau'r eiddo preswyl cyfagos oherwydd edrych drosodd, gorgysgodi, dominyddu neu golli preifatrwydd

**8. Argymhelliad**

**Caniatau**

**(01) Rhaid cychwyn ar y datblygiad yr ymwna'r caniatâd hwn a fo o fewn pum mlynedd i ddyddiad y caniatâd hwn.**

Rheswm: Ufuddhau i anghenion Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

**(02) Ni chaniateir ar unrhyw adeg i wal/gwrych/ffens derfyn bresennol y briffordd nac unrhyw ffin**

**terfyn newydd a godir yn wynebu'r briffordd fod yn uwch nag 1 metr uwchlaw lefel cerbydlon y ffordd sirol gyfagos o naill ben ffin y safle â'r briffordd i'r llall ac ni chaniateir codi unrhyw beth uwch na hynny o fewn 2m. i'r cyfryw wal.**

Rheswm: Cydymffurfio a gofynion yr Awdurdod Priffyrdd er lles diogelwch y ffordd.

**(03) Bydd raid sicrhau bod gosodiad y fynedfa a dull ei hadeiladu yn cydymffurfio'n llwyr gyda y cynllun amgaeëdig cyfeirnod HMPTA manylion figwr 1 cyn dechrau ar y defnydd y rhoddir caniatâd iddo yma ac wedyn bydd raid cadw'r fynedfa yn glir o bob rhwystr parhaol a'i defnyddio i ddibenion mynediad yn unig.**

Rheswm: Cydymffurfio a gofynion yr Awdurdod Priffyrdd.

**(04) Rhaid cwblhau'r fynedfa gyda wyneb asffalt/bitwmen am y 5 metr cyntaf o ymyl agosaf y Briffordd Sirol gan sicrhau bod y system draenio dwr wyneb wedi ei chwblhau ac yn gweithio'n berffaith cyn cychwyn ar y defnydd a ganiateir yma.**

Rheswm: Cydymffurfio a gofynion yr Awdurdod Priffyrdd.

**(05) Rhaid cwblhau'r lle parcio ceir yn gwbl unol â'r manylion fel a gyflwynwyd cyn cychwyn ar y defnydd a ganiateir yma ac wedyn bydd raid cadw'r lle parcio i'r dibenion hyn yn unig.**

Rheswm: Cydymffurfio a gofynion yr Awdurdod Priffyrdd.

**(06) Rhaid i'r annedd a ganiateir yma fod wedi'i hadeiladu i gyrraedd isafswm Cod Cartrefi Cynaliadwy Lefel 3 a chyrraedd o leiaf 6 o gredydau o dan gategori Ene 1 - 'Graddfa Allyrru Annedd' - yn unol â gofynion y Cod Cartrefi Cynaliadwy: Cyfarwyddyd Technegol 11 Tachwedd 2010 (neu unrhyw fesur cyfatebol wedi hynny ac/neu safon neu fel a gytunwyd yn ysgrifenedig gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol). Rhaid adeiladu'r datblygiad yn hollol unol â'r asesiad a'r ardystiad fydd wedi'i gymeradwyo.**

Rheswm: I liniaru achosion newid yn yr hinsawdd a sicrhau geynwch yn erbyn newidiadau yn yr hinsawdd a ragwelir i'r dyfodol.

**(07) Ni chaniateir dechrau adeiladu'r annedd a ganiateir yma hyd nes bo 'Tystysgrif Interim' wedi'i chyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol, ac wedi derbyn ei ganiatâd ysgrifenedig, yn ardystio bod isafswm Cod Cartrefi Cynaliadwy Lefel 3 ac o leiaf 6 o gredydau o dan 'Ene 1 - 'Graddfa Allyrru Annedd' wedi'i gyrraedd ar gyfer yr annedd yn unol â gofynion y Cod Cartrefi Cynaliadwy : Cyfarwyddyd Technegol 11 Tachwedd 2010 (neu unrhyw fesur cyfatebol wedi hynny ac/neu safon, neu fel a gytunwyd yn ysgrifenedig gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol).**

Rheswm: I liniaru achosion newid yn yr hinsawdd a sicrhau geynwch yn erbyn newidiadau yn yr hinsawdd a ragwelir i'r dyfodol.

**(08) Cyn bod neb yn byw yn yr annedd a ganiateir yma, rhaid cyflwyno 'Tystysgrif Terfynol' Cod Cartrefi Cynaliadwy i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a derbyn ei ganiatâd ysgrifenedig, yn ardystio bod isafswm Cod Cartrefi Cynaliadwy Lefel 3 ac isafswm o 6 credyd o dan 'Ene 1 - 'Graddfa Allyrru Annedd' wedi'i gyrraedd ar gyfer yr annedd yn unol â gofynion y Cod Cartrefi Cynaliadwy : Cyfarwyddyd Technegol 11 Tachwedd 2010 (neu unrhyw fesur cyfatebol wedi hynny ac/neu safon neu fel a gytunwyd yn ysgrifenedig gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol).**

Rheswm: I liniaru achosion newid yn yr hinsawdd a sicrhau geynwch yn erbyn newidiadau yn yr hinsawdd a ragwelir i'r dyfodol.

**(09) Rhaid ymgymryd a'r datblygiad a ganiateir gan y caniatâd hwn yn fanwl yn ôl y cynllun a gyflwynwyd ar y 08.04.2011 o dan cais cynllunio rhif. 30C692A.**

Rheswm: Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth.

***Er Gwybodaeth***

***Na fydd yr awdurdod priffyrdd yn gyfrifol am unrhyw ddwr wyneb sy'n llifo o'r ffordd i'r safle'n sgil y datblygiad.***

***Ei gyfrifoldeb ef/hi fydd addasu, symud a/neu warchod unrhyw wasanaethau statudol ar y brifffordd ac ef/hi fydd yn talu am wneud y gwaith.***

***Ef/hi fydd yn talu i'r Awdurdod Ffyrdd, ei gynrychiolwyr neu ei gontractwyr cydnabyddedig eraill am ddarparu'r llwybr cerdded a/neu lwybr ar draws y lle glas a fydd eu hangen yng nghyswllt y datblygiad hwn a hynny cyn defnyddio'r fynedfa a chwblheir y gwaith hwn cyn cychwyn ei defnyddio.***

***Os yw ef/hi yn dewis gwneud y gwaith ei hun, dylai'r ymgeisydd gyflwyno cais ysgrifenedig i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol (Priffyrdd, Trafnidiaeth ac Eiddo) yn gofyn am yr hawl, dan Adran 171 Deddf Briffyrdd 1980 i wneud gwaith ar y briffordd ar gyfer creu'r llwybr cerdded a/neu'r llwybr ar draws y lle glas.***

**9. Polisïau Perthnasol Eraill**

**Cynllun Lleol Ynys Mon Local**

26 –Parcio Ceir
31 –Tirwedd

**Cynllun Fframwaith Gwynedd**

D3 –Ardaloedd Cadwraeth Tirwedd
D4 –Lleoliad, Gosodiad a Dylunio
D28 –Llechi Naturiol
D32 –Tirlunio
FF12 –Safonnau Parcio

**Cynllun Datblygu Unedol a Stopiwyd**

EN1 – Cymeriad Tirwedd
TR10 – Parking Standards Safonnau Parcio
SG5 – Sustemau Trin Carthion Preifat
SG6 – Dwr yn Llifo Oddi ar y Wyneb

**Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 4)**

**TAN 12: Dylunio**

**SPG: Cyfarwyddyd Dylunio ar gyfer yr Amgylchedd Trefol a Gwledig.**

**10. Ymatebion Eraill Di-Faterol a Godwyd**

Dim.

**11.3** **Gweddill y Ceisiadau** **Remainder Applications**

Rhif y Cais: **42C225** Application Number


Ymgeisydd Applicant

**Mr Alan Southall**
**36 Nant y Felin**
**Pentraeth**
**Anglesey**
**LL75 8YA**

Dymchwel y modurdy ac ystafell haul presennol ynghyd a chodi estyniad yn

Demolition of garage and conservatory and erection of an extension at

36, Nant y Felin, Pentraeth



**Pwyllgor Cynllunio: 01/06/2011**

**Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaeth Cynllunio (GJ)**

**Argymhelliad:**

Caniatau

**Rheswm dros Adrodd i'r Pwyllgor:**

Daw’r cais gerbron y Pwyllgor oherwydd bod yr ymgeisydd yn gweithio i’r Cyngor.

**1. Y Safle a'r Bwriad**

Cais yw hwn i ddymchwel y garej bresennol a’r ystafell haul a chodi estyniad un grib.

Mae’r annedd ar stad Nant y Felin, Pentraeth. Ar y stad fe geir byngalos unllawr a rhai deulawr.

**2. Mater(ion) Allweddol**

Y pethau allweddol sydd angen eu hystyried yw dyluniad y cynnig a’r effaith ar yr eiddo cyfagos.

**3. Prif Bolisïau**

**Cynllun Lleol Ynys Mon**

Polisi 31 – Tirwedd
Polisi 42 – Dyluniad
Polisi 58 – Estyniadau

**Cynllun Fframwaith Gwynedd**

Polisi D4 – Lleoliad, Safle a Dyluniad
Polisi 29 – Dyluniad

**Cynllun Unedol Ynys Mon wedi ei atal**

Polisi GP2 – Dyluniad
Polisi EN1 – Tirwedd

**4. Ymateb i'r Ymgynghoriad a'r Cyhoeddusrwydd**

Cyngor Cymuned – Dim ymateb adeg ysgrifennu’r adroddiad

Aelod Lleol – Dim ymateb adeg ysgrifennu’r adroddiad

Priffyrdd – Dim ymateb adeg ysgrifennu’r adroddiad

Draenio – Sylwadau

Dwr Cymru - Dim ymateb adeg ysgrifennu’r adroddiad

Rhoddwyd rhybudd i eiddo cyfagos am y datblygiad. Nid oes unrhyw sylwadau croes wedi'u derbyn ar adeg ysgrifennu'r adroddiad.

**5. Hanes Cynllunio Perthnasol**

Dim hanes perthnasol

**6. Prif Ystyriaethau Cynllunio**

Bwriedir dymchwel y garej to fflat bresennol a'r ystafell haul a chodi estyniad unllawr un grib gyda llofft, cegin, ystafell fwyta a stydi.

Mae yna lawer o wahanol fathau o estyniadau ar stad Nant y Felin a'r rhan fwyaf ohonynt gyda thoeau fflat. Mae'r eiddo cyfagos yn 35 Nant y Felin gydag estyniad mawr gyda chrib yn y cefn ac mae'r eiddo arall yn 37 Nant y Felin gydag estyniad to fflat yn y cefn.

Mae Polisi 58 o Gynllun Lleol Ynys Môn yn dweud bod toeau crib yn well na thoeau fflat. Bydd dymchwel yr ystafell haul a'r garej sydd ar hyn o bryd yn ddau adeilad ar wahân a chreu un estyniad un crib yn welliant i'r annedd. Mae'r rhan fwyaf o'r estyniadau ar y stad yn rhai to fflat ac felly ni fydd yr estyniad hwn yn edrych allan o gymeriad mewn unrhyw ffordd.

**7. Casgliad**

Fe all y safle gymryd y cynnig yn gyfforddus heb iddo edrych yn gyfyng neu edrych fel pebai'n gorddatblygu'r safle a hynny er niwed i gymeriad yr ardal neu i fwynderau eiddo cyfagos.

**8. Argymhelliad**

**Caniatau**

**(01) Rhaid cychwyn ar y datblygiad yr ymwna'r caniatâd hwn a fo o fewn pum mlynedd i ddyddiad y caniatâd hwn.**

Rheswm: Ufuddhau i anghenion Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

**(02) Rhaid ymgymryd a'r datblygiad a ganiateir gan y caniatâd hwn yn fanwl yn ôl y cynllun a gyflwynwyd ar y 03.05.11 o dan cais cynllunio rhif 42C225**

Rheswm: Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth.

**9. Polisïau Perthnasol Eraill**

**Cynllun Lleol Ynys Mon**

Polisi 1 – Polisi Cyffredinol

**Cynllun Unedol Ynys Mon wedi ei atal**

Polisi GP1 – Cyfarwyddyd Rheoli Datblygu

Cyfarwyddyd Cynllunio Atodol: Amgylchedd Trefol a Gwledig.

## 10. Ymatebion Eraill Di-Faterol a Godwyd

Dim

**11.4** **Gweddill y Ceisiadau** **Remainder Applications**

Rhif y Cais: **49C304** Application Number


Ymgeisydd Applicant

**Mr T M Williams**
**Wern Olau**
**Trearddur Bay Road**
**Valley**
**Ynys Môn**
**LL65 3EY**

Cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu ynghyd a chodi modurdy newydd yn

Full application for altertations and extensions together with the erection of a new garage at

Wern Olau, Trearddur Bay Road, Valley, LL65 3EY



**Pwyllgor Cynllunio: 01/06/2011**

**Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaeth Cynllunio (SCR)**

**Argymhelliad:**

Caniatau

**Rheswm dros Adrodd i'r Pwyllgor:**

Mae'r ymgeisydd yn gyfaill agos i Swyddog sy'n gweithio yn yr Adran Gynllunio.

Mae'r Swyddog Monitro wedi edrych yb ofalus ar y cais fel sy'n ofynnol o dan baragraff 4.6.10.4 yn y Cyfansoddiad.

**1. Y Safle a'r Bwriad**

Cais yw hwn i godi ystafell haul yng nghefn yr eiddo a hefyd i godi garej ar wahân yn lle un arall gydag ystafell aml bwrpas a thoiled yng nghefn y garej.

Annedd unllawr ar wahân yw'r eiddo ar gyrion y Fali o fewn yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol dynodedig.

**2. Mater(ion) Allweddol**

A fydd y cynnig yn cael effaith ar fwynderau deiliaid eiddo preswyl cyfagos? A fydd y cynnig yn cael effaith niweidiol ar yr ardal o gwmpas sydd yn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol?

**3. Prif Bolisïau**

**Cynllun Lleol Ynys Môn**

Polisi 1 – Polisi Cyffredinol
Polisi 30 – Tirlunio
Polisi 58 – Ehangu

**Cynllun Fframwaith Gwynedd**

Polisi D1 – Tirlunio
Polisi D4 – Lleoliad, safle a dyluniad
Polisi D28 – Dyluniad
Polisi D29 – Dyluniad

**Cynllun Datblygu Ynedol a Stopiwyd**

Polisi GP1 – Rheoli Datblygu
Polisi GP2 – Dyluniad
Polisi EN2 – Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol
Polisi HP7a – Estyniadau

Canllawiau Cynllunio Atodol – Canllawiau Dylunio ar gyfer yr Amgylchedd Trefol a Gwledig

## 4. Ymateb i'r Ymgynghoriad a'r Cyhoeddusrwydd

Aelod Lleol – dim ymateb hyd yma.

Cyngor Cymuned – dim ymateb hyd yma.

Dwr Cymru – dim ymateb hyd yma.

Adain Draenio – sylwadau safonol.

Rhoddwyd cyhoeddusrwydd mewn dwy ffordd i'r cais. Gosodwyd rhybudd ger y safle a rhoddwyd rhybuddion personol i ddeiliaid eidoo cyfagos. Y dyddiad olaf ar gyfer derbyn sylwadau oedd 31 Mai, 2011. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad nid oedd unrhyw lythyrau wedi'u derbyn yn yr adran.

## 5. Hanes Cynllunio Perthnasol

Dim

## 6. Prif Ystyriaethau Cynllunio

**Yr effaith ar eiddo deiliaid cyfagos** - Bydd yr ystafell haul arfaethedig wedi'i lleoli yng nghefn yr eiddo ac nid oes eiddo arall yn union gerllaw yr ystafell haul arfaethedig. Bydd y garej bresennol ar y safle yn cael eu dymchwel a bydd garej ychydig yn fwy yn cael eu hadeiladu gyda lle ychwanegol ar gyfer ystafell aml bwrpas a thoiled yn ei chefn. Mae yna sgrinio ar hyn o bryd gyda thyfiant rhwng safle'r cais a'r eiddo cyfagos yn Cherry Garth ac Ellaline fydd yn cuddio'r garej oddi wrth y ddau eiddo. Ni fydd y cynnig felly yn cael effaith ar fwynderau deiliaid yr eiddo cyfagos.

**Effaith ar y dirwedd oddi amgylch** – Mae'r safle yn yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol. Dynodiad statudol yw hwn sy'n cydnabod ei bwysigrwydd o ran ansawdd y dirwedd ac yn nhermau cadwraeth natur.

Prif amcan unrhyw ddynodiad Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol yw cadw a gwella eu harddwch naturiol. Y mae'n ddyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i dalu sylw i bwrpasau'r AHNE a rhaid i benderfyniadau rheoli datblygu sy'n effeithio ar yr AHNE fod o blaid cadw eu harddwch naturiol.

Mae'r garej to fflat presennol angen ei thrwsio a bydd y garej to crib arfaethedig yn gwella edrychiad yr ardal. Bydd y deunyddiau fydd yn cael eu defnyddio i adeiladu'r ystafell haul a garej yn matsio'r hyn welir ar y tai presennol.

## 7. Casgliad

Ni fydd y cynnig hwn yn cael effaith niweidiol ar y dirwedd oddi amgylch sydd wedi'i dynodi yn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol ac ni fydd yn cael effaith niweidiol ar y mwynderau sy'n cael eu mwynhau ar hyn o bryd gan ddeiliaid yr eiddo cyfagos.

## 8. Argymhelliad

**Caniatau**

**(01) Rhaid cychwyn ar y datblygiad yr ymwna'r caniatâd hwn a fo o fewn pum mlynedd i ddyddiad y caniatâd hwn.**

Rheswm:  Ufuddhau i anghenion Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

**(02) Rhaid ymgymryd a'r datblygiad a ganiateir gan y caniatâd hwn yn fanwl yn ôl y cynllun a gyflwynwyd ar y 26:04:11 o dan cais cynllunio rhif 49C304.**

Rheswm: Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth.

**9. Polisïau Perthnasol Eraill**

Dim

**10. Ymatebion Eraill Di-Faterol a Godwyd**

Dim